OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 435 (Cy.63)

CAFFAEL TIR, CYMRU
CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*15 Chwefror 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*18 Chwefror 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

Terfyn gwerth blynyddol

2. £34,800 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005(**3**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 1990 p.8.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i amrywir gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2005/367 (Cy.33)